# DOGFEN FRIFFIO ASESIAD POBLOGAETH: ANABLEDDAU DYSGU YN CYNNWYS AWTISTIAETH

## 1. Cyflwyniad

Drwy'r prosiect Deall ein Cymunedau, mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael gwell dealltwriaeth o'r pethau da am gymunedau, beth sy'n bwysig i bobl a sut mae eu profiadau a'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig yn gallu ein helpu i gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gynorthwyo pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth i ddweud eu dweud a chyfrannu at reoli eu lles eu hunain. Mae'r Ddeddf yn golygu y bydd angen i wasanaethau cyhoeddus wneud yn siŵr bod y cymorth cywir ar gael ar gyfer y bobl sydd ei angen ar yr adeg iawn ac yn y ffordd iawn.

Dan y Ddeddf hon, mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus gyflawni a chyhoeddi Asesiad Poblogaeth, sy'n edrych ar:

- anghenion gofal a chymorth, ac anghenion cymorth gofalwyr;
- y graddau nad yw'r anghenion hynny'n cael eu diwallu;
- amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny;
- sut y caiff gwasanaethau eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yng Nghwm Taf, rydym wedi bod yn casglu llawer o wybodaeth ar gyfer yr Asesiad, gan y bobl sy'n creu polisïau a chomisiynu penderfyniadau am wasanaethau, y bobl sy'n darparu gwasanaethau a'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau. Er mwyn edrych ar yr holl wybodaeth hon mewn ffordd drefnus, defnyddiwyd saith 'thema'r' Ddeddf;


- Gofalwyr;
- Plant a phobl ifanc;
- Anabledd dysgu;
- Iechyd meddwl;
- Pobl hŷn;
- Anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau;

- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yna fe wnaethom dreulio tipyn o amser yn siarad â’r bobl hyn am y penawdau a ddaeth i'r amlwg o dan y thema hon a meddwl o ddifrif am y ffordd y maent yn effeithio ar bobl a'r hyn y gallwn ni fel gwasanaethau cyhoeddus ei wneud i ddiwallu anghenion pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn y ffordd orau bosibl, nawr ac yn y dyfodol.

Mae crynodeb o'r penawdau sy’n ymwneud â gofalwyr i’w gweld yn y ddogfen hon. Mae'r ddogfen yn dangos sut mae'r penawdau Gofalwyr yn perthyn i'r ‘darlun mwy’ a'r negeseuon allweddol sy'n ymwneud â *phob* thema a'r hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd a/neu y gallem ei wneud i ymdrin â'r penawdau hyn.

Mae adroddiad Asesiad Poblogaeth cyffredinol yn cynnwys y wybodaeth yn y penawdau ar gyfer pob thema.




Mae'r triongl yn dangos y gwahanol rannau o'n gwaith sydd, gyda'i gilydd yn ffurfio Adroddiad Asesu Cwm Taf. Mae pob lefel o'r Asesiad hwn yn cael ei gefnogi gan lefel fwy manwl o ddata a gwybodaeth. Mae'r Adroddiad Asesu wedi'i roi at ei gilydd fel hyn fel y gall pob darllenydd archwilio'r wybodaeth rydym wedi'i chasglu a'i dadansoddi mor fanwl ag y dymunant a chanolbwyntio ar unrhyw feysydd o ddiddordeb penodol. Mae'r holl wybodaeth a gasglwyd trwy gydol y prosiect i lywio'r penawdau yn y ddogfen friffio hon ar gael mewn llyfrgell ar-lein hefyd.

## 2. Anabledd dysgu

Mae’r ddogfen hon ynglŷn â phlant, pobl ifanc ac oedolion ag anableddau dysgu a / neu Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth sy’n byw yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful (rhanbarth Cwm Taf).

Os oes gan rywun ‘anabledd dysgu’, fel arfer dywedir ei fod yn ei chael hi’n anodd deall gwybodaeth newydd neu gymhleth a dysgu sgiliau newydd ac nad yw bob

amser yn gallu byw ei fywyd heb gymorth a chefnogaeth gan eraill. Fel rheol mae anabledd dysgu'n dechrau cyn bod yn oedolyn ac mae effaith yr anabledd yn barhaol.

Defnyddir y term 'anabledd dysgu' i ddisgrifio llawer o wahanol fathau o gyflyrau a gall profiad pobl o'r un anabledd dysgu fod yn wahanol. Mae hyn hefyd yn wir am Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth, lle bydd rhai'n cael anhawster cyfathrebu ag eraill, problemau yn rheoli eu hymddygiad a ffordd wahanol o weld y byd o gymharu â phobl sydd heb Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth. Felly, mae'n anodd iawn siarad am bobl ag 'anableddau dysgu' fel un grŵp a gall pobl ag anableddau dysgu siarad am yr un cyflwr mewn ffyrdd gwahanol.

Pan fo plant a phobl ifanc yn yr ysgol, defnyddir y termau 'Anghenion Addysgol Arbennig', 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' ac 'anhawster dysgu' hefyd i ddisgrifio gwahanol lefelau o gymorth y gallen nhw eu cael i'w helpu gyda'u dysgu.

## 3. Y sefyllfa bresennol yng Nghwm Taf

Ni fydd y rhan fwyaf o bobl ag anabledd dysgu neu Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth yn defnyddio gwasanaethau arbenigol lefel uchel ar gyfer eu cyflwr ond byddan nhw'n defnyddio'r un gwasanaethau â phawb arall. Yn ogystal â'r gwasanaethau sydd ar gael i bawb, mae'r gwasanaethau sydd ar gael yng Nghwm Taf i bobl ag anableddau dysgu'n cynnwys:

- Addysg i blant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig mwy difrifol, megis dosbarthiadau cymorth dysgu mewn ysgolion prif ffrwd (arferol), pedair ysgol arbennig a dwy uned i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol;
- Cyllid i ysgolion i'w helpu i gefnogi disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig;
- Gwasanaethau o fewn y Cyngor megis Seicoleg Addysg; Cymorth Dysgu; Cymorth Ymddygiad; Presenoldeb a Llesiant; Ymgysylltiad a Chyfranogaeth Ieuenctid; a Chymorth Hyfforddiant, Cyflogaeth ac Addysg;
- Tai â chymorth;
- Cyflogaeth â chymorth a phethau i'w gwneud / llefydd i fynd yn ystod y dydd;
- Gwasanaethau sy'n rhoi amser i deuluoedd / gofalwyr orffwys o'r gwaith o ofalu am y person gydag anabledd;

- Cynlluniau sy’n helpu pobl i fyw’r bywyd maen nhw’n ei ddymuno;
- Gofal yn y cartref a Thaliadau Uniongyrchol, sy’n rhoi’r arian yn uniongyrchol i bobl anabl a’u teuluoedd fel y gallan nhw ddewis y gwasanaethau maen nhw’n eu dymuno;
- Cefnogaeth i bobl siarad ar ran pobl ag anableddau dysgu;
- Cefnogaeth gweithwyr cymdeithasol;
- Cymorth elusennau a gwirfoddol;
- Cefnogaeth gwasanaethau iechyd fel a ganlyn:
  - Mae plant ac oedolion ag anabledd dysgu ysgafn i gymedrol yn derbyn eu gofal iechyd yn bennaf gan bediatryddion, meddygon teulu, a gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf rôl bwysig o ran darparu gofal iechyd holistaidd o ansawdd uchel i’r sawl sydd ag anableddau dysgu. O fewn lleoliadau ysbytai cyffredinol Cwm Taf, darperir hyfforddiant anabledd dysgu i hyrwyddo ymwybyddiaeth staff a gwella’r ddarpariaeth gwasanaethau.
  - Ar hyn o bryd, darperir Gwasanaethau Anabledd Dysgu gofal Eilaidd i oedolion o fewn rhanbarth Cwm Taf gan Fwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg (ABMU) fel gwasanaeth rhwydwaith gyda chyswllt agos â gwasanaethau gofal sylfaenol ac iechyd meddwl lleol. Ar hyn o bryd, fel rheol mae rhwng 75 ac 85 o oedolion gydag anabledd dysgu cymedrol i ddwys yn byw o fewn amrywiaeth o leoliadau cartref a reolir gan ABMU yng Nghwm Taf. Cefnogir y bobl hyn gan staff preswyl ABMU a Thimau Anabledd Dysgu Cymunedol.

Ar draws Cwm Taf, mae gwaith wedi bod ar y gweill i ddatblygu ‘Cyd-ddatganiad o Fwriad ar gyfer Anabledd Dysgu Cwm Taf’. Datblygwyd y ddogfen gan asiantaethau statudol sy’n gyfrifol am ddarparu’r gwasanaethau a gynigir i bobl ag anableddau dysgu. Y bwriad yw rhannu’r ddogfen hon â phobl a’u teuluoedd sy’n defnyddio’r gwasanaethau er mwyn sicrhau ei bod yn ddarlun clir a chywir.

Yn ôl y ‘Cyd-ddatganiad o Fwriad ar gyfer Anabledd Dysgu’, dylai pobl ag anabledd dysgu gael mwy o ddewis a rheolaeth ynglŷn â’r hyn sy’n digwydd iddyn nhw a dylent allu defnyddio gwasanaethau cyfoes ac effeithiol sy’n eu cefnogi i fyw heb ormod o gefnogaeth gan wasanaethau neu eu teuluoedd - ‘Byw’n Annibynnol’ yw’r term ar gyfer hyn, ac mae pobl wedi dweud wrthym pa mor bwysig yw hyn iddyn nhw yn eu bywydau.

Yn y dyfodol, defnyddir y ‘Cyd-ddatganiad o Fwriad ar gyfer Anabledd Dysgu’ gyda’r ddogfen hon a’r Asesiad Poblogaeth terfynol i helpu gwasanaethau a’r bobl sy’n defnyddio gwasanaethau i wneud penderfyniadau.

## 4. Penawdau

***Mae pobl am fod yn rhan o’u cymuned.***

Dywedodd pawb y buom yn siarad â hwy pa mor bwysig oedd hi eu bod nhw’n teimlo’n rhan o’u cymuned – naill ai yn y lle roedden nhw’n byw, y bobl maen nhw’n treulio amser yn eu cwmni neu’r gweithgareddau maen nhw’n eu gwneud. Roedd pobl yn dweud eu bod yn mwynhau cael y cyfle a’r gefnogaeth i fyw’n annibynnol, ac mae ystyr hyn yn amrywio o berson i berson. Roedd rhai’n ystyried bod ‘byw’n annibynnol’ yn golygu byw yn eu cartref eu hun, heb fawr o gymorth neu ddim o gwbl gan wasanaethau, tra bod eraill yn gweld annibyniaeth fel byw i ffwrdd oddi wrth aelodau’r teulu.

Er enghraifft, er bod rhai pobl yn byw mewn adeiladau lle mae staff ar gael i helpu, roedd hyn yn gyfystyr â ‘chartref’ iddyn nhw. Roedden nhw’n siarad am y staff a’r bobl eraill roedden nhw’n byw gyda nhw fel dylanwad da ar eu hannibyniaeth. Roedd pobl hefyd yn dweud bod gwneud ffrindiau gyda theulu, partneriaid a chydweithwyr yn rhywbeth a oedd yn gwneud i bobl deimlo’n dda ac yn gwella’u llesiant.

Roedd dysgu sgiliau newydd, gwneud hyfforddiant neu ddod o hyd i swydd hefyd yn rhywbeth da i’w wneud yn ôl pobl ag anableddau dysgu a’r sawl sy’n gweithio gyda nhw. Roedd pobl yn dweud wrthym fod dysgu a chael swydd yn dda i’w llesiant corfforol a meddyliol, ac yn eu helpu i gyflawni mwy a phethau gwell.

Nid yw llawer o bobl ag anableddau dysgu a / neu Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth yn defnyddio gwasanaethau arbenigol, felly mae’n bwysig bod yr holl wasanaethau’n hawdd eu defnyddio i bobl ag anableddau dysgu hefyd. I lawer o’r bobl y buom yn siarad â hwy, nid ‘anabledd dysgu’ yw’r hyn sy’n effeithio ar sut maen nhw’n teimlo o ddydd i ddydd, yn hytrach y rhwystrau eraill i deimlo’n dda megis symud o gwmpas, treulio amser gydag eraill, teimlo bod diben i fywyd a’ch bod yn cael eich gwerthfawrogi oedd bwysicaf i bawb. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned leol megis cynlluniau chwarae, cerddoriaeth, clybiau bowlio, grwpiau cerdded, dawnsio a bandiau pres sy’n agored i bawb, ond sy’n gwneud ymdrech i gael pobl ag anableddau dysgu i gymryd rhan hefyd.

Ar hyn o bryd, nid yw'r holl wasanaethau neu gymunedau wedi'u sefydlu yn y ffordd orau i wneud hyn ac mae angen i ni godi ymwybyddiaeth ymhlith busnesau, aelodau'r gymuned a gwasanaethau cyhoeddus i helpu pobl i fwynhau gweithgareddau yn eu cymunedau. Bydd hyn yn galw am amser ac amynedd i ddeall pa bethau sydd angen eu newid er mwyn i bawb gymryd rhan, dysgu o'r gweithgareddau hynny sy'n gwneud hyn yn dda er mwyn ailadrodd hynny, a sicrhau bod y gwasanaethau yn fwy hyblyg a defnyddio 'synnwyr cyffredin' ynghylch yr hyn y gallai pobl fod eu hangen.

***Ymddengys fod mwy o bobl gyda llawer o wahanol anawsterau dysgu ac mae'r hyn mae pobl yn ei ddisgwyl oddi wrth wasanaethau yn newid. Mae hyn yn creu heriau i bawb.***

Credwn fod tua 5,500 o bobl yng Nghwm Taf gydag anabledd dysgu gydag oddeutu 2,500 ohonyn nhw'n blant a phobl ifanc. Mae gan oddeutu 600 o blant a phobl ifanc Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth yn Rhondda Cynon Taf ac mae tua 140 o blant a phobl ifanc yn byw gyda'r cyflwr ym Merthyr Tudful (bydd gan rai ohonyn nhw anabledd dysgu hefyd).[1]

Dim ond nifer fach o'r bobl hyn sy'n defnyddio gwasanaethau yn Rhondda Cynon Taf neu Ferthyr Tudful. Ar hyn o bryd mae oddeutu 234 o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r gwasanaethau trwy Dîm Plant Anabl Rhondda Cynon Taf ond mae yna 239 pellach o blant sy'n cael eu cefnogi gan y tîm sydd heb anabledd a gofnodwyd. Ym Merthyr Tudful, mae 87 o blant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi gan y Tîm Plant Anabl ar hyn o bryd.[2]

Ond mae pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wedi dweud yr ymddengys fod mwy o bobl gydag anawsterau mwy cymhleth. Er enghraifft, mae nifer y bobl ifanc sydd wedi bod angen datganiad yn dweud bod ganddyn nhw Angen Addysgol Arbennig wedi tyfu 46% ers 2012 (o 564 i 823 o ddisgyblion yn 2016). Mae hyn yn rhoi pwysau ar wasanaethau ac yn awgrymu bod nifer y bobl ag anawsterau yn codi. Mae angen ystyried hyn wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol i oedolion ag anableddau dysgu.

Yn ogystal â hyn, mae'r gwasanaethau y mae pobl yn eu disgwyl yn newid. Mae mwy o bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn dymuno byw fel pawb arall gyda'u plant yn mynd i ysgolion prif ffrwd, gan gymryd rhan mewn llawer o bethau a gallu byw'n annibynnol. Mae hon wedi bod yn broses hir ac mae'n ymwneud â'r ffordd rydym ni'n byw yn awr. Mae ein cymunedau a'n teuluoedd wedi newid ac

[1] Daffodil Cymru
[2] Darparwyd data gan Wasanaethau Plant Cynghorau RhCT a Merthyr Tudful

mae hyn wedi golygu bod mwy o wasanaethau traddodiadol yn cael eu hystyried yn hen ffasiwn.

Nid yw gwasanaethau cyhoeddus wedi gallu symud mor gyflym â disgwyliadau pobl, felly mae yn rai bylchau bellach mewn rhai gwasanaethau cymunedol lefel isel megis, tai, cyngor ar gyflogaeth a chymorth cymdeithasol. Yn hytrach, mae gormod o bobl yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau traddodiadol fel canolfannau dydd. Er bod pobl yn mwynhau mynd i ganolfannau dydd a gwneud ffrindiau newydd, ac er bod canolfannau dydd yn rhoi seibiant i deuluoedd a gofalwyr, yn gyffredinol nid ydyn nhw'n helpu'r bobl i gyflawni eu potensial a'u helpu i fyw bywyd llawnach. Ond mae yna rai enghreifftiau o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, hyfforddiant ac yn cael gwaith trwy wasanaethau a gefnogir. Hefyd, mae modelau newydd o ddarpariaeth tai sef 'llety gofal ychwanegol' ar gyfer pobl hŷn, lle gall pobl fyw'n annibynnol ond eto fod yn derbyn cymorth. Roedd pobl yn gofyn a allai'r gwasanaethau hyn hefyd fod yn ddefnyddiol i bobl ifanc gydag anableddau dysgu hefyd.

Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda gwasanaethau Cynghorau ac Iechyd lleol i gyflwyno Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol Cydgysylltiedig [3]. Bydd y gwasanaeth yn newid y ffordd mae plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael cymorth mewn ysgolion; yn annog cyflogwyr a chanolfannau gwaith i gefnogi pobl i ddod o hyd i waith a helpu'r gymuned ehangach i ddeall Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth er mwyn cefnogi'r person yn well.

Yn lleol, mae angen i ni edrych ar sut mae sefydliadau yn symud cyllid o'r gwasanaethau mwy 'traddodiadol' i ganolbwyntio ar yr hyn mae pobl am ei gyflawni. Bydd hyn yn cynnwys meddwl yn wahanol am y pethau cadarnhaol sydd eisoes yn y gymuned y gellir eu defnyddio a'u datblygu i wella bywydau pobl. I gyflawni hyn, bydd angen i wasanaethau ar hyd a lled Cwm Taf wella yn eu hymdrechion i rannu gwybodaeth â'i gilydd er mwyn helpu'r broses benderfynu ynglŷn â ble dylid buddsoddi arian yng ngwasanaethau'r dyfodol.

***Mae'n anodd cael mynediad at gymorth ar adegau o argyfwng.***

Fel y dywedwyd eisoes, ni fydd angen gwasanaethau ar gyfer eu cyflwr ar gyfer y rhan fwyaf o bobl ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Ond, nid yw hyn yn golygu na fydd angen iddynt o bosibl gael cymorth neu wasanaethau ar adegau penodol yn eu bywyd. Mae pobl ag anableddau dysgu yn fwy tebygol o gael problemau iechyd neu broblemau iechyd meddwl [4]. Os

[3] Cynllun gweithredu strategol Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth
[4] Cyd-ddatganiad o Fwriad Strategol Cwm Taf

nad yw gwasanaethau'n gwybod am y bobl hyn, gall eu problemau barhau i waethygu'n raddol nes eu bod yn cyrraedd argyfwng. Mae angen i ni osgoi sefyllfa o'r fath.

Mae'r un peth yn wir am deuluoedd sydd wedi bod yn gofalu am eu plentyn neu oedolyn gydag anableddau dysgu. Weithiau, mae angen iddyn nhw gael cymorth pan fydd pethau'n anodd iawn neu pan fo rhywbeth yn digwydd sy'n rhoi straen ar y teulu cyfan. Mae bylchau ar hyn o bryd yn y 'gwasanaethau dwys' hyn, y gwasanaethau hynny sy'n helpu i reoli argyfwng, dod â'r teulu'n ôl o'r dibyn a helpu i drechu'r problemau yn y tymor hirach.

Yn aml iawn, mae'r pethau hyn yn ymwneud â phroblemau gydag ymddygiad ac iechyd meddwl. Eisoes, mae rhai gwasanaethau lleol ar gael i blant ac oedolion sydd â phroblemau'n rheoli eu hymddygiad, ond roedd pobl yn dweud wrthym eu bod angen rhagor o wasanaethau, yn gynharach mewn bywyd a gwasanaeth 'rhag ofn' lefel isel, o bobl yn y gymuned trwy sefydliad gwirfoddol.

Hefyd, mae angen i ni newid ymddygiad gwasanaethau a theuluoedd, fel bod pobl yn synhwyro agwedd fwy croesawgar a chynorthwyol. Dywedodd pawb (nid dim ond y teuluoedd a effeithir gan anableddau dysgu neu awtistiaeth) eu bod am deimlo bod pobl wedi eu deall ac wedi gwrando arnyn nhw. Roedden nhw'n dweud y byddai cael rhaglenni ynghylch pethau sylfaenol fel mynd i'r tŷ bach ac arferion cysgu yn gymorth, ac y gallai hyn fod ar gael trwy gydol oes y person - nid dim ond ar gyfer plant bach. Mae enghreifftiau da o hyn yn cynnwys yr '*Early Bird' Parenting Programme* [5] sy'n helpu rhieni i ddeall yn well ymddygiad plant sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth ac Ymwelwyr Iechyd arbenigol Dechrau'n Deg.

***Mae angen i wasanaethau weithio'n fwy cydweithredol gan edrych ar y person ac nid y broblem.***

Dyma thema gyffredin sy'n rhedeg trwy Ddeddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) a deddfau cenedlaethol eraill ar hyn o bryd. Hefyd roedd yn rhywbeth roedd staff ac aelodau'r cyhoedd wedi siarad yn gryf amdano yn ystod y broses. Dywedodd pobl hefyd fod hyn yn anodd oherwydd yr holl wahanol wasanaethau, deddfau a chronfeydd ariannol; mae hyn yn atal staff rhag defnyddio synnwyr cyffredin i alluogi person i gyrraedd ei nodau. A dywedodd aelodau'r cyhoedd mai'r cyfan oedd ei hangen arnyn nhw oedd gwasanaethau a oedd yn gwneud synnwyr ac yn rhoi dewis go iawn iddyn nhw a rheolaeth dros eu dewis.

[5] Programme through the National Autistic Service

Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys sut gallai pobl ag anableddau dysgu fod am wario eu taliadau uniongyrchol (arian a roddir yn uniongyrchol i bobl a'u teuluoedd i brynu'r gwasanaethau maen nhw'n teimlo eu bod eu hangen i'w cynorthwyo). Gall rhai pobl fod am ddefnyddio'r arian hwn i wneud y gweithgareddau maen nhw'n eu mwynhau, a fydd yn arwain at sgiliau newydd, mwy o hyder a phethau mwy. Ond, ar hyn o bryd, mae'r drefn yn ei gwneud hi'n reit anodd i Gynghorau a Byrddau Iechyd ganiatáu i hyn ddigwydd.

Yn yr un modd, mae pawb yn wahanol a bydd arnyn nhw angen gwahanol lefelau o gymorth ar wahanol adegau yn eu bywyd. Ar hyn o bryd, mae plant a phobl ifanc (hyd at 18 neu 25 oed) yn cael gwasanaethau penodol na all oedolion o bosibl eu defnyddio. Hefyd, mae'r timau sy'n gweithio gyda phlant yn wahanol i'r rhai sy'n gweithio gydag oedolion, ac yn aml byddan nhw'n gweithio mewn ffordd wahanol iawn. Weithiau, nid yw hyn yn hwylus i rywun sy'n defnyddio un gwasanaeth tan iddo gyrraedd 18 a 364 diwrnod, a gwasanaethau cwbl wahanol unwaith iddo gyrraedd 19 oed. Mae hyn yn wir i deuluoedd sy'n maethu plentyn ag anawsterau dysgu, a all wedyn fod angen lleoliad oedolyn. Dylai'r broses hon fod yn gyflym a hawdd, ond gall fod yn heriol dros ben.

Fel y dywedwyd eisoes, gall hyn fod yn wir wrth i gyflwr pobl fynd yn fwy cymhleth. Er enghraifft, gall pobl hŷn fod ag anabledd dysgu, iechyd corfforol gwael a dementia. Mae hyn yn golygu y gallan nhw gael eu trosglwyddo o'r naill wasanaeth i'r llall, sy'n ddryslyd ac yn anodd i'r person ac i'w deulu. Mae hyn yn digwydd yn sgil y rhaniadau mae polisïau cenedlaethol yn eu creu o ran y gwasanaethau y gall rhai pobl eu defnyddio. Ond mae angen i hyn newid os ydym am gefnogi pobl i fyw'r buwyd maen nhw'n ei ddymuno.

Felly, roedd pawb yn cytuno bod angen i'r system fod yn fwy hyblyg i helpu staff i weld y person ac nid y broblem. Mae hyn yn golygu y gall fod angen i Lywodraeth Cymru wneud rhai newidiadau, fel bod gwasanaethau lleol yn gallu gwneud y pethau mae angen iddyn nhw eu gwneud ar gyfer y person.

Hefyd bydd angen i wasanaethau gydweithio'n well i ddeall yr hyn mae'r person am ei gyflawni. Bydd angen i adrannau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Cyngor a'r sector gwirfoddol rannu gwybodaeth, cydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu rhai o anghenion cymhleth pobl ag anableddau dysgu ac Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth. Mae hyn yn mynd i fod yn anodd i rai gwasanaethau a bydd angen iddyn nhw wneud penderfyniadau anodd i roi cynnig ar bethau newydd. Mae hyn yn 'newid diwylliant' ar draws Cwm Taf. Ond bydd gwrando ar bobl ag anableddau dysgu a / neu Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth

a’u teuluoedd, eu cynnwys mewn penderfyniadau a chynllunio gyda nhw yn gwneud y broses hon yn llawer haws.

## 5. Cysylltiadau â themâu cyffredin a phenawdau eraill

Nid yw’r pethau sy’n effeithio ar bobl ag anableddau dysgu yn bethau sy’n dibynnu ar neb na dim. Mae’r un pethau’n debygol o effeithio ar eraill sy’n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, ond sydd heb anabledd dysgu. Yn yr un modd, mae yna benawdau a themâu cyffredin eraill a fydd yn effeithio ar bobl ag anabledd dysgu ond na fyddant yn gysylltiedig â’r anabledd dysgu hwnnw. Mae rhai o’r themâu cyffredin a gyflwynwyd yn y gwaith hwn yn cynnwys:

Mae sicrhau bod pobl yn teimlo’n rhan o’u cymuned yn un o reidiau bywyd. Mae teimlo’n unig yn broblem gyffredin i bobl ag anabledd dysgu ac Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth, ac mae hefyd yn wir am yr henoed, pobl â phroblemau iechyd meddwl a phobl eraill yn y gymdeithas. Mae ein hasesiad ni o’r boblogaeth yn canolbwyntio’n bennaf ar iechyd a gofal cymdeithasol ond mae bywydau pobl yn ymwneud â llawer mwy na gwasanaethau cymdeithasol ac os mai ein bwriad yw helpu pobl i helpu eu hunain mae angen i fwy o wasanaethau ddeall y rhwystrau gwahanol sy’n atal pobl rhag teimlo’n rhan o’u cymuned. Felly, mae angen i ni feddwl mwy am dai, hamdden, cludiant a chynllunio wrth i’r broses ddatblygu yn y dyfodol.

Hefyd, roedd pobl yn teimlo bod angen i wasanaethau fod yn fwy cyfoes gan symud i ffwrdd oddi wrth ganolfannau dydd a mynd ati i ddatblygu darpariaeth o gwmpas yr hyn sy’n bodoli eisoes yn y gymuned, yn hytrach na gosod pobl i mewn i wasanaethau. Mae hyn yn newid diwylliant i wasanaethau, sy’n ceisio datrys problem yn hytrach nag edrych ar fywyd cyflawn y person. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda’r gymuned a sefydliadau partner o dan Ddeddf Llesiant a Gwasanaethu Cymdeithasol (Cymru) i ganolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflawni dim ond i bobl feddwl y tu allan i’w gwasanaethau eu hunain.

Ar draws y gwaith hwn, cydnabuwyd bod yn rhaid i’r hyn y byddwn yn ei wneud nesaf gynnwys y bobl a effeithir gan y gwasanaethau hyn a’u cymunedau. Mae arnom angen eu cymorth i lunio gwasanaethau’r dyfodol a gwirio sut bydd pethau’n gweithio yn ymarferol. Hefyd, bydd angen i ni feithrin cryfder yn y cymunedau wrth iddyn nhw amgylchynu person a gall wneud gwahaniaeth mawr i’w bywydau. Bydd adeiladu rhwydweithiau da yn helpu pobl i gysylltu â’i gilydd ac yn cryfhau’r gymuned gyfan.

Mae anghenion cyfochrog gofalwyr wedi'u cynnwys ledled penodau'r asesiad oherwydd mae llesiant unigolion yn aml yn dibynnu ar y teuluoedd o'u cwmpas. Dylai unrhyw wasanaethau sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw grwpiau a nodir gan themâu'r Ddeddf ystyried beth mae hyn yn ei olygu i'r gofalwyr - er enghraifft, rhaid cynllunio gwasanaethau dydd anabledd dysgu law yn llaw â gwasanaethau seibiant.

Mae'r angen am wasanaethau sy'n ymateb yn effeithiol i argyfwng yn parhau ledled Cwm Taf, er mai ein nod yw sicrhau bod amgylchedd cadarn yn amgylchynu teuluoedd.

Mae achos cryf o blaid casglu gwell data, sicrhau dulliau gwell o rannu gwybodaeth a gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth a data i helpu i gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.